



PEOPLE & PLACES
Insight

Caernarfon

Adroddiad Meincnodi'r Dref

Gorffennaf 2019

Mike King
People and Places Insight Cyf
mike.king@people-places.co.uk





Crynodeb Gweithredol

Cyffredinol

Cynnig Masnachol

- Mae 41% o'r unedau masnachol llawr daear a ddefnyddir yn siopau A1, sydd 11% yn is na'r cyfartaledd Trefi Mawrion Cenedlaethol a 10% yn is na'r cyfartaledd Trefi Bychain Cenedlaethol. Mae 12% yn Fwytai a Chaffis A3, 11% yn wasanaethau Ariannol a Phroffesiynol, a 10% yn Fusnesau B1. Mae'r olaf o'r rhain yn sylweddol uwch na'r ffigyrau ar gyfer Trefi Bychain (3%) a Threfi Mawrion Cenedlaethol (4%).
- Mae 80% o'r siopau A1 yn gwerthu Nwyddau Cymhariaeth yn bennaf.
- Mae 68% o'r siopau A1 yng Nghaernarfon yn unigryw i ganol y dref, sydd 16% yn uwch na'r cyfartaledd Trefi Mawrion Cenedlaethol a 3% yn uwch na'r ffigwr Trefi Bychain Cenedlaethol.

Parcio

- Mae 91% o'r manau parcio yng Nghaernarfon oddi ar y ffordd. Yn gyffredinol, ar Ddiwrnod Pysur yng Nghaernarfon, roedd 28% o'r holl ddarpariaeth o fannau parcio yn wag, sydd yn is na'r ffigyrau ar gyfer Trefi Bychain (31%) a Threfi Mawrion (32%) Cenedlaethol ac yn ostyngiad ar ffigwr 2016 (34%). Mae'r ffigwr o 32% ar gyfer manau gwag ar Ddiwrnod Tawel 5% yn is na'r ffigyrau ar gyfer Trefi Bychain a Mawrion Cenedlaethol fel ei gilydd, a dyma'r ffigwr isaf ar gofnod yng Nghaernarfon.

Hyder Busnes

- Nododd 67% o'r ymatebwyr Busnes bod eu trosiant wedi aros yr un fath dros y 12 mis diwethaf, sydd 37% yn uwch na chyfartaledd Trefi Bychain Cenedlaethol, a 35% yn uwch na ffigwr Trefi Mawrion Cenedlaethol. Gan ddilyn yr un thema, nododd 55% o Fusnesau bod eu Proffidioldeb wedi aros yr un fath o gymharu â'r llynedd.
- Yn nhermau Hyder Busnes, roedd 35% o Fusnesau yn disgwyl y byddai eu Trosiant yn Cynyddu dros y 12 mis nesaf, ac roedd yr un nifer yn disgwyl i'w Trosiant aros yr un fath.

Tref Ymwelwyr

- Roedd 34% o'r Codau Post a gasglwyd yn yr Arolwg Tarddiad Siopwyr yn perthyn i ymwelwyr oedd yn byw yn bellach i ffwrdd na thaith 30 munud mewn car. Mae hyn yn fwy na dwbl y ffigyrau ar gyfer Trefi Bychain a Threfi Mawrion Cenedlaethol.



Cadarnhaol

Argymell Ymweld

- Nododd 78% o ymatebwyr y byddent yn argymell ymweliad â Chanol y Dref, sydd 4% yn uwch na 2015, 17% yn uwch na'r cyfartaledd Trefi Mawrion Cenedlaethol, ac yn gynydd o 14% ar y ffigwr Trefi Bychain Cenedlaethol.

Niferoedd Ymwelwyr

- Ar y Diwrnod Prysus, roedd y niferoedd ymwelwyr i Gaernarfon yn 219 person bob deng munud; a dyma'r ffigwr uchaf ers cychwyn Meincodi yn y dref. Mae'r ffigwr rhwng y cyfartaledd Trefi Mawr Cenedlaethol (310) a'r cyfartaledd Trefi Bychain Cenedlaethol (93).

Y Fasnach Ymwelwyr

- Adroddwyd gan 81% o Fusnesau bod Ymwelwyr fel Cwsmeriaid Posib yn agwedd gadarnhaol o fasnachu yng Nghaernarfon. Mae hyn yn fwy na dwbl y cyfartaleddau ar gyfer Trefi Mawrion a Threfi Bychain Cenedlaethol.
- Rhywbeth sy'n amlygu natur dwristaidd tref Caernarfon yw'r ffaith fod 15% o ddefnyddwyr Canol y Dref wedi aros drwy'r dydd.
- Ystyriai Busnesau mai 'Hanes' a 'Chastell Caernarfon' oedd Pwyntiau Gwerthu Unigryw y dref.

Bwyd a Diod

- Adroddwyd gan 64% o ddefnyddwyr Canol y Dref fod Caffis / Bwytaï yn elfen gadarnhaol yng Nghaernarfon; bron i ddwbl y cyfartaleddau ar gyfer Trefi Bychain a Threfi Mawrion Cenedlaethol. Yng nghyswllt y cynnig bwyd a diod, fe wnaeth 45% o ddefnyddwyr Canol y Dref nodi fod Tafarndai / Bariau / Clybiau Nos yn agwedd gadarnhaol. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigyrau ar gyfer Trefi Mawrion (13%) a Threfi Bychain (25%) Cenedlaethol.

Lle i Wella

Cyfradd Unedau Gwag

- Roedd 12% o'r unedau llawr daear masnachol o fewn canol y dref yn wag pan gynhaliwyd yr archwiliad, sy'n debyg i gyfartaleddau'r Trefi Bychain Cenedlaethol (10%) a'r Trefi Mawrion Cenedlaethol (11%), ac hefyd i gyfartaleddau blaenorol Meincodi Caernarfon.
- Fe wnaeth 67% o Fusnesau nodi bod nifer yr unedau gwag yn agwedd negyddol ar Ganol y Dref.

Niferoedd Ymwelwyr





- Mae'r ffigwr Diwrnod Tawel (118) 51% yn is na'r cyfartaledd Trefi Mawrion Cenedlaethol ac yn ostyngiad ar Werthusiadau Meincnodi 2016 (139) a 2015 (152); sydd o bosib yn adlewyrchiad mwy triw o weithrediadau Canol y Dref.



Parcio

- Fe wnaeth tri chwarter (76%) y Busnesau nodi fod Parcio Ceir yn agwedd negyddol yng Nghaernarfon. Mae hyn dros 20% yn uwch na'r cyfartaleddau Trefi Mawrion a Threfi Bychain Cenedlaethol, ac yn cyd-fynd â chyfartaleddau 2015 (74%) a 2012 (61%).
- Nododd 40% o ddefnyddwyr Canol y Dref fod Parcio Ceir yn agwedd negyddol yng Nghaernarfon.

Gwariant Cwsmeriaid

- Mae 32% o ddefnyddwyr Canol y Dref yn gwario llai na £5.00 ar ymweliad arferol â Chaernarfon, sydd 21% yn uwch na chyfartaledd Trefi Mawr Cenedlaethol (11%) ac 17% yn uwch na ffigwr Trefi Bychain Cenedlaethol.

Y Cynnig Manwerthu

- Nododd 44% o ddefnyddwyr Canol y Dref fod y Cynnig Manwerthu yn agwedd negyddol yng Nghaernarfon.

Glendid ac Ymddangosiad Ffisegol

- Fe wnaeth dros hanner defnyddwyr Canol y Dref (54%) nodi fod Glendid yn agwedd negyddol yng Nghaernarfon. Roedd Gwelliannau i Lendid hefyd yn un o'r prif themâu yn codi o'r argymhellion ansoddol a ddarparwyd gan ddefnyddwyr Canol y Dref.
- Fe wnaeth 49% o ddefnyddwyr Canol y Dref nodi fod Ymddangosiad Ffisegol yn agwedd negyddol yng Nghaernarfon, ac ategwyd yr adborth meintiol gan nifer o sylwadau ansoddol.

Y Maes

- 'Newid llif y traffig ar y Maes' oedd un o'r prif themâu yn codi o argymhellion defnyddwyr Canol y Dref.

Cyflwyniad

Y Dull

Mae System Meincnodi People and Places Insight Cyf wedi ei datblygu i fynd i'r afael â'r problemau gwirioneddol sy'n codi ynghylch sut i ddeall, mesur, gwerthuso ac, yn y pen draw, i wella canol trefi. Mae'r dull yn cynnig ffordd syml o gasglu data ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a ddewisir gan y sawl sy'n rhan o reoli canol y dref. Trwy fod â'r arfau i fesur perfformiad, caiff y broses o wneud penderfyniadau strategol ei annog a'i wella. Trwy ystyried perfformiad, gall blaenstrategaethau a chynllunio gweithredu fod yn fwy effeithiol a bod â mwy o ffocws.

Y System

Rhennir y System Feincnodi yn ddwy ran:

- Trefi Mawrion Cenedlaethol; sy'n cynnwys yr ardaloedd lleol hynny gyda mwy na 250 o unedau
- Trefi Bychain Cenedlaethol; sy'n cynnwys yr ardaloedd lleol hynny gyda llai na 250 o unedau

Mae trefi, yn ddibynnol ar eu maint, yn cyfrannu naill ai at y dadansoddiad Trefi Mawrion neu at y dadansoddiad Trefi Bychain. Mae ardal ddiffiniedig canol tref **Caernarfon** yn cynnwys **300** uned, ac fe'i cyfrifir felly yn **Dref Fawr**. Fodd bynnag, darparwyd data'r Trefi Bychain Cenedlaethol gyda'r data hydredol at ddibenion cymharu.

Mae'r dadansoddiad yn darparu data ar bob DPA ar gyfer y dref ei hun, yn ogystal ag mewn cyd-destun Cenedlaethol a Hydredol. Y ffigwr Cenedlaethol yw'r cyfartaledd ar gyfer yr holl drefi wnaeth gymryd rhan mewn Meincnodi rhwng Gorffennaf 2017 ac Ionawr 2019. Lle bo hynny'n briodol, fel tref sy'n parhau i ddefnyddio'r System Feincnodi, darperir dadansoddiad hydredol yn erbyn ffigyrau Caernarfon ar gyfer 2016 a 2015.

Yr Adroddiadau

Mae adroddiad Meincnodi Trefi People and Places Insight Cyf yn darparu dadansoddiad ystadegol o bob un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Mae amrywiaeth o brif fudd-ddeiliaid yn defnyddio'r adroddiad, megis Awdurdodau Lleol, Cynghorau Tref a Phlwyf, Ardaloedd Gwella Busnes, partneriaethau lleol, manwerthwyr a phrifysgolion er mwyn:

- Mesur prosiectau adfywio Stryd Fawr
- Datblygu prosiectau adfywio Canol Trefi
- Mesur effaith digwyddiadau a gwyliau yn erbyn amodau masnachu arferol
- Darparu sail tystiolaeth i gefnogi ceisiadau am nawdd
- Darparu sail tystiolaeth ar gyfer cynlluniau parcio ceir
- Darparu sail tystiolaeth i gefnogi Cynllunio Cymdogaeth
- Cefnogi Ardaloedd Gwella Busnes
- Cefnogi grwpiau cymunedol

Astudiaethau Achos

Mae astudiaethau achos o arfer da wrth ddefnyddio data Meincnodi yn cynnwys:

OurBuryStEdmunds: Fe wnaeth Ardal Gwella Busnes Bury St Edmunds ddefnyddio Meincnodi yn y lle cyntaf i lunio cynllun prosiect cyraeddadwy y gallai'r sefydliad ei ddefnyddio am y 12 mis cyntaf. Yn dilyn hynny, mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi cael eu mesur yn flynyddol er mwyn canfod effaith ystod eang o fentrau a phrosiectau. Yn fwyaf arwyddocaol, fe wnaeth Arolygon Defnyddwyr Canol y Dref ddangos bod nifer fawr o ymwelwyr yn anfodlon â chynnydd mewn ffioedd parcio ar draws yr ardal leol. O ganlyniad, roedd modd i'r Ardal Gwella Busnes gyflwyno'r wybodaeth i'w Hawdurdod Lleol, a goruchwylio'r gwaith o gyflwyno polisi 'Parcio am ddim ar ôl 3pm'. Cafodd data o'r Arolygon Hyder Busnes, Niferoedd Ymwelwyr a Defnyddwyr Canol y Dref hefyd ei ddefnyddio i wella arwyddion i rai oedd yn ymweld â chanol y dref am y tro cyntaf.



Love Newmarket: Defnyddiodd yr Ardal Gwella Busnes y data er mwyn mesur Canol y Dref dan amodau masnachu arferol, ac atgynhyrchu hynny i fesur niferoedd ymwelwyr, gwariant cwsmeriaid, hyd arhosiad a tharddiad ymwelwyr mewn digwyddiadau adeg y Nadolig er mwyn cael dealltwriaeth o effaith.

Cyngor Tref Bradford on Avon: Defnyddiodd y Cyngor Tref ddata o Astudiaeth Meincnodi cyffredinol i gomisiynu Astudiaeth Parcio Ceir Uwch gan People and Places. Fe wnaeth gwybodaeth anecdotaidd a'r Meincnodi amlygu problem gyda phrinder darpariaeth parcio difrifol mewn mannau cyfyng yng Nghanol y Dref yn ystod y dydd. Ategwyd y data gwreiddiol gan y dystiolaeth a gasglwyd yn yr astudiaeth fanwl, a darparwyd adroddiad ar wahân i'r Cyngor Tref er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.

Southam First: Fe wnaeth Cyngor Dosbarth Stratford upon Avon (CDS) ddefnyddio arian Adran 106 er mwyn comisiynu adolygiad Meincnodi o ganol tref Southam. Roedd y prif bwyntiau'n codi o'r dadansoddiad yn cynnwys gwella'r economi fusnes, marchnata'r ardal leol, creu calendr o ddigwyddiadau a gwyliau, a datblygu Marchnad Ffermwyr. Defnyddiodd CDS y data fel arf ar wahân yn seiliedig ar dystiolaeth i greu Partneriaeth Canol Tref yn cynnwys cymysgedd o'r sector breifat a'r sector gyhoeddus, er mwyn mynd i'r afael â'r materion yn codi o'r Adroddiad Meincnodi. Cafwyd digwyddiad cyhoeddus i amlygu canfyddiadau'r adroddiad, ac i ofyn am enwebiadau ar gyfer aelodau'r Bwrdd a'r Gweithgor. O fewn deufis, roedd 'Southam First' yn sefydliad cwbl weithredol oedd yn gweithredu camau ar gynllun prosiect yn seiliedig ar yr Adolygiad Meincnodi. Fe wnaeth y dull gweithredu ar sail tystiolaeth ganiatáu i Southam First wneud ceisiadau llwyddiannus am gyllid gan ystod eang o gyrff i sicrhau cynaliadwyedd.



Methodoleg

Cesglir pob DPA mewn modd safonedig, fel y nodir yn y tabl isod.

DANGOSYDD PERFFORMIAD ALLWEDDOL	METHODOLEG
DPA: UNEDAU MASNACHOL: DOSBARTH DEFNYDD	Arolwg Gweledol o unedau llawr daear yn ardal ddiffiniedig canol y dref.
DPA: UNEDAU MASNACHOL: CYMHAREB/CYFLEUSTER	Arolwg Gweledol o unedau llawr daear A1 yn ardal ddiffiniedig canol y dref.
DPA: UNEDAU MASNACHOL: MATH O FASNACHWR	Arolwg Gweledol o unedau llawr daear A1 yn ardal ddiffiniedig canol y dref.
DPA: UNEDAU MASNACHOL: CYFRADD UNEDAU GWAG	Arolwg Gweledol o unedau llawr daear A1 yn ardal ddiffiniedig canol y dref.
DPA: MARCHNADOEDD	Arolwg Gweledol o gyfanswm y masnachwyr.
DPA: NIFEROEDD YMWELWYR	Arolwg o Niferoedd Ymwelwyr ar ddiwrnod prysur a diwrnod tawel yn ystod yr wythnos.
DPA: PARCIO CEIR	Archwiliad o gyfanswm y manau parcio a'r gyfradd manau parcio gwag ar ddiwrnod prysur a diwrnod tawel yn ystod yr wythnos.
DPA: AROLYGON BUSNES	Dosberthir â llaw.
DPA: AROLYGON DEFNYDDWYR CANOL Y DREF	Ar-lein ac wyneb yn wyneb.
DPA: AROLYGON TARDDIAD SIOPWYR	Dosberthir â'r Arolygon Hyder Busnes. Gofynnir i Fusnesau gofnodi Tarddiad Siopwyr dros gyfnod penodol o amser.

Prif Ganfyddiadau

DPA: UNEDAU MASNACHOL: DOSBARTH DEFNYDD

Mae'n bwysig deall graddfa ac amrywiaeth y "cynnig masnachol" a geir trwy'r dref. Mae amrywiaeth o siopau ac ystod eang o wasanaethau o fewn tref yn bwysig o ran ei gallu i aros yn gystadleuol a pharhau i ddenu cwsmeriaid. Mae cyrraedd cydbwysedd rhwng y gwahanol agweddau sydd ynghlwm â phrynu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau yn sicrhau bod y boblogaeth leol (ac ymwelwyr o'r tu allan) yn medru treulio amser a gwario arian yno, gan gadw'r cyfoeth a grëir yn y dref o fewn yr economi leol. Yn bwysig, mae hefyd yn ffurfio'r sail gyflogaeth i gyfran sylweddol o'r gymuned, gan helpu i gadw'r boblogaeth yn hytrach na'i cholli i drefi a dinasoedd cyfagos.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi dadansoddiad manwl o bob un o'r Dosbarthau Defnydd

Dosbarth	Math y Defnydd	Y Dosbarth yn cynnwys
A1	Siopau	Siopau, storffeydd manwerthu, trinwyr gwallt, asiantaethau teithio a thocynnau, swyddfeydd post (ond nid y swyddfeydd trefnu), siopau anifeiliaid anwes, siopau brechdanau, ystafelloedd arddangos, siopau hurio deunydd domestig, cwmnïau sych-lanhau, ymgymerydd angladdau a chaffis rhyngwyd.
A2	Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol	Gwasanaethau ariannol megis banciau a chymdeithasau adeiladu, gwasanaethau proffesiynol (ar wahân i wasanaethau iechyd a meddygol) yn cynnwys asiantaethau eiddo a chyflogaeth a swyddfeydd betio
A3	Bwytaï a Chaffis	Bwyd a diod i'w fwyta a'i yfed ar y safle - bwytaï, barrau byrbrydau a chaffis
A4	Sefydliadau Yfed Alcohol	Tafarndai, barrau gwin neu sefydliadau yfed alcohol eraill (ond nid clybiau nos)
A5	Siopau Bwyd Poeth i'w gario allan	Gwerthiant bwyd poeth i'w fwyta oddi ar y safle
B1	Busnesau	Swyddfeydd (ar wahân i'r rheiny sy'n dod o dan A2), ymchwil a datblygiad cynnyrch a phrosesau, diwydiant ysgafn sy'n briodol o fewn ardal breswyl
B2	Diwydiannol Cyffredinol	Diwydiannol Cyffredinol



B8	Storio a Dosbarthu	Warysau, yn cynnwys storfeydd awyr agored
C1	Gwestai	Gwestai, lletyau a thai gwestai lle nad oes elfen ofal o bwys yn cael ei darparu (nid yw'n cynnwys hostelau)
C2	Sefydliadau Preswyl	Cartrefi gofal preswyl, ysbytai, cartrefi nyrsio, ysgolion a cholegau preswyl a chanolfannau hyfforddi.
C2A	Sefydliadau Preswyl Diogel	Defnydd ar gyfer darparu llety preswyl diogel, gan gynnwys defnydd fel carchar, sefydliad troseddwr ifanc, canolfan gadw, canolfan hyfforddi ddiogel, canolfan y ddalfa, canolfan gadw byrdymor, ysbyty diogel, llety diogel yr awdurdod lleol neu ddefnydd fel barics milwrol.
D1	Sefydliadau Di-breswyl	Clinigau, canolfannau iechyd, meithrinfeydd, canolfannau dydd, ysgolion, orielau celf (oni bai am werthu neu hurio), amgueddfeydd, llyfrgelloedd, neuaddau, addoldai, neuaddau eglwys, llysoedd barn. Addysg di-breswyl a chanolfannau hyfforddi.
D2	Ymgynnull a Hamdden	Sinemâu, cerddoriaeth a neuaddau cyngerdd, neuaddau bingo a dawnsio (ond nid clybiau nos), baddonau nofio, lloriau sglefrio, campfeydd neu ardaloedd ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau dan do neu awyr agored (oni bai am chwaraeon modur, neu lle defnyddir drylliau).
SG	Sui generis (sefydliadau 'unigryw')	Theatrau, hostelau lle nad oes elfen ofal o bwys yn cael ei darparu, iardiau sgrap. Gorsafoedd Petrol a siopau sy'n gwerthu ac/neu arddangos cerbydau modur. Clybiau warws werthu, clybiau nos, golchdai, busnesau tacsî, canolfannau difyrion, casinos, iardiau cerbydau cludo, depos cludiant, clinigau milfeddygol, parlyrau cŵn, salonau lliw haul a harddwch a stiwdioau tatŵ.





Mae'r tabl a ganlyn yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwasanaethau masnachol sydd yn cael eu cynnig yng nghanol y dref, yn ôl Dosbarth Defnydd. Cyflwynir y ffigyrau fel canran o'r **263** uned llawn a gofnodwyd.

		Trefi Bychain Cenedlaet hol %	Trefi Mawrion Cenedlaet hol %	Caern. 2019 %	Caern. 2016 %	Caern. 2015 %
A1	Siopau	51	50	41	43	44
A2	Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol	13	14	11	11	12
A3	Bwytaï a Chaffis	8	11	12	11	11
A4	Sefydliadau Yfed Alcohol	4	4	5	5	5
A5	Siopau Bwyd Poeth i'w gario allan	4	3	3	3	3
B1	Busnesau	3	4	10	10	9
B2	Diwydiannol Cyffredinol	1	0	1	1	1
B8	Storio a Dosbarthu	0	0	0	0	0
C1	Gwestai	1	1	4	4	4
C2	Sefydliadau Preswyl	0	0	1	1	1
C2A	Sefydliadau Preswyl Diogel	0	0	0	0	0
D1	Sefydliadau Di-breswyl	7	5	7	7	7
D2	Ymgynnull a Hamdden	1	1	1	1	1
SG	Sui generis (sefydliadau 'unigryw')	6	6	4	2	2
N/R	Heb eu cofnodi	0	0	0	1	0

Mae 41% o'r unedau masnachol llawr daear a ddefnyddir yn siopau A1, sydd 11% yn is na'r cyfartaledd Trefi Mawrion Cenedlaethol a 10% yn is na'r cyfartaledd Trefi Bychain Cenedlaethol. Mae 12% yn Fwytaï a Chaffis A3, 11% yn wasanaethau Ariannol a Phroffesiynol, a 10% yn Fusnesau B1. Mae'r olaf o'r rhain yn sylweddol uwch na'r ffigyrau ar gyfer Trefi Bychain (3%) a Threfi Mawrion Cenedlaethol (4%).



DPA: UNEDAU MASNACHOL: NWYDDAU CYMHARIAETH NEU NWYDDAU CYFLEUS

Gellir rhannu unedau manwerthu A1 sy'n gwerthu nwyddau yn ddau fath gwahanol, sef nwyddau cymhariaeth a nwyddau cyfleus.

Nwyddau cyfleus – eitemau pob dydd cost isel nad yw defnyddwyr yn debygol o deithio'n bell i'w prynu. Diffinnir fel:

- Bwyd a diodydd di-alcohol
- Tybaco
- Alcohol
- Papurau newydd a chylchgronau
- Nwyddau tŷ amharhaol

Nwyddau cymhariaeth – pob math arall o nwyddau manwerthu

- Llyfrau
- Dillad ac Esgidiau
- Dodrefn, gorchuddion llawr a thecstilau i'r tŷ
- Offer sain-weledol a nwyddau parhaol eraill
- Caledwedd a nwyddau DIY
- Nwyddau Fferyllfa
- Gemwaith, oriorau a chlociau
- Beiciau
- Nwyddau hamdden a nwyddau amrywiol
- Trin Gwallt

Mae presenoldeb amrywiaeth o siopau mewn canol tref yn bwysig o ran ei allu i aros yn gystadleuol ac i barhau i ddenu cwsmeriaid. Mae cydbwysedd rhwng unedau manwerthu nwyddau cymhariaeth a nwyddau cyfleus felly'n ddelfrydol o ran annog ymwelwyr / cwsmeriaid posib.

Mae'r tabl a ganlyn yn darparu canran y Siopau A1 sydd yn gwerthu Nwyddau Cymhariaeth / Nwyddau Cyfleus yn bennaf.

	Trefi Bychain Cenedlae thol %	Trefi Mawrion Cenedlae thol %	Caern. 2019 %	Caern. 2016 %	Caern. 2015 %
Cymhariaeth	81	84	80	77	76
Cyfleus	19	16	20	23	24

Mae 80% o'r siopau A1 yn gwerthu Nwyddau Cymhariaeth yn bennaf.

DPA: UNEDAU MASNACHOL: MATHAU O WERTHWYR

Mae hyfywdra canol tref yn dibynnu'n fawr ar ansawdd ac amrywiaeth y mân-werthwyr a gynrychiolir yno. Ystyrir busnesau masnachol cenedlaethol yn allweddol o ran eu gallu i ddenu, ac maent yn bwysig iawn wrth geisio denu ymwelwyr a siopwyr i dref. Fodd bynnag, yn aml mae cymeriad a phroffil tref yn dibynnu hefyd ar amrywiaeth a chymysgedd o siopau annibynnol sy'n gallu cynnig "pwynt gwerthu unigryw" fydd yn helpu i'w gwahaniaethu rhag cystadleuwyr eraill. Er mwyn cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar fywiogrwydd a hyfywedd tref, mae'n debyg y dylid cael cydbwysedd cynaliadwy o atynwyr allweddol a siopau cadwyn, ynghyd â siopau annibynnol lleol.

Mae Experian Goad yn ystyried bod y siopau canlynol yn atynwyr allweddol. (2017)

Siopau Adrannol	Dillad
BHS	Burton
Debenhams	Dorothy Perkins
House of Fraser	H & M
John Lewis	New Look
Marks and Spencer	Primark
	River Island
Masnachwyr Nwyddau Cymysg	Topman
Argos	Topshop
Boots	
TK Maxx	Manwerthwyr eraill
WH Smith	Carphone Warehouse
Wilkinson	Clarks
	Clintons
Archfarchnadoedd	O2
Sainsbury's	Superdrug
Tesco	Phones 4 U
Waitrose	Vodafone
	Waterstones

Mae masnachwyr lluosog yn rhai sy'n gweithredu'n genedlaethol ac yn enwau adnabyddus. Mae siopau rhanbarthol yn rhai sydd â siopau / unedau mewn nifer o drefi ledled un rhanbarth daearyddol yn unig, a diffinnir siopau Annibynnol fel rhai sy'n benodol i un dref.



Mae'r tabl a ganlyn yn darparu canran y Siopau A1 sydd yn Atynwyr Allweddol, yn Siopau Cadwyn, yn Rhanbarthol ac yn Annibynnol yn yr ardal leol.

	Trefi Bychain Cenedlaet hol %	Trefi Mawrion Cenedlaet hol %	Caern. 2019 %	Caern. 2016 %	Caern. 2014 %
Atynnwr Allweddol	7	10	4	5	5
Siopau Cadwyn	18	29	22	23	21
Rhanbarthol	10	9	6	7	6
Annibynnol	65	52	68	66	68

Mae 68% o'r siopau A1 yng Nghaernarfon yn unigryw i ganol y dref, sydd 16% yn uwch na'r cyfartaledd Trefi Mawrion Cenedlaethol a 3% yn uwch na'r ffigwr Trefi Bychain Cenedlaethol.





DPA: CYFRADD UNEDAU MASNACHOL GWAG

Mae unedau gwag yn ddangosydd pwysig o fywiogrwydd a hyfywdra canol tref. Dros gyfnod o amser gall unedau gwag amlygu gwendidau posib mewn canol tref, a hynny o ganlyniad i feini prawf y lleoliad, lefelau rhent uchel neu gystadleuaeth gref o ganolfannau eraill.

Mae'r tabl a ganlyn yn darparu canran yr unedau gwag o'i gymharu â chyfanswm nifer yr unedau masnachol.

	Trefi Bychain Cenedlaet hol %	Trefi Mawrion Cenedlaet hol %	Caern. 2019 %	Caern. 2016 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Unedau Gwag	10	11	12	11	11	12

Roedd 12% o'r unedau llawr daear masnachol o fewn canol y dref yn wag pan gynhaliwyd yr archwiliad, sy'n debyg i gyfartaleddau'r Trefi Bychain Cenedlaethol (10%) a'r Trefi Mawrion Cenedlaethol (11%), ac hefyd i gyfartaleddau blaenorol Meincnodi Caernarfon.



DPA: MARCHNADOEDD

Mae marchnadoedd o ansawdd uchel yn cynnig cystadleuaeth a dewis i ddefnyddwyr. Mae marchnad prysur a phoblogaidd felly yn ddangosydd da o fywiogrwydd canol tref. I'r gwrthwyneb, os yw marchnad yn dirywio (e.e. llecynnau gwag a llai o niferoedd), gall fod yn ddangosydd o wendidau yng nghanol y dref e.e. llai o gwsmeriaid ar droed o ganlyniad i gymysgedd wael o siopau neu gynnydd yng ngweithgaredd cystadleuwyr. Gall marchnadoedd stryd hefyd greu buddion sylweddol i'r economi leol. Gall marchnadoedd hefyd gynnig cyfle i amrywiaeth eang o fentrau lleol gychwyn, datblygu a thyfu, gan ychwanegu at y gymysgedd gynaliadwy o siopau a gwasanaethau sydd ar gael yn y dref.

Yn y tabl isod ceir cyfartaledd nifer y masnachwyr marchnad yn y brif farchnad reolaidd (o leiaf unwaith bob pythefnos) ar ddyddiau gwaith yn yr ardal leol.

	Trefi Bychain Cenedlaet hol	Trefi Mawrion Cenedlaet hol	Caern. 2019	Caern. 2016	Caern. 2015	Caern. 2012
Masnachwyr	15	68	<i>n/a</i>	<i>n/a</i>	<i>n/a</i>	<i>n/a</i>

NIFEROEDD YMWELWYR

Mae cyrhaeddiad a symudiad pobl, boed yn drigolion, gweithwyr, ymwelwyr neu siopwyr, yn hanfodol i lwyddiant mwyafrif y busnesau o fewn canol y dref. Bydd cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu denu i'r dref yn gwella masnach y dref a llwyddiant y busnesau a leolir yno, cyn belled bod digon o incwm gwario o fewn y boblogaeth honno. Drwy fesur nifer y bobl sy'n pasio, mewn modd cyson ac yn yr un lle, ar yr un adeg, gellir adeiladu darlun o dref, ei masnachwyr a'u llwyddiant cymharol dros y cyfnod o wythnosau a misoedd.

Meincnodir niferoedd ymwelwyr mewn lleoliadau penodol am gyfnod penodol rhwng 10.00am a 1.00pm, gan gyfrif y bobl sy'n pasio i'r ddau gyfeiriad mewn un man (e.e. llinell ddychmygol ar draws y ffordd) am ddeng munud union bob awr (e.e. 10.00-10.10am, 11.20-11.30am, 12.40pm-12.50pm). Ar wahân i'r uchod, mae rheolau sylfaenol ynghlwm â'r broses:

- *Defnyddir oriawr amseru cywir a pheiriant cyfrif a weithredir â llaw*
- *Os yw person yn cerdded heibio fwy nag unwaith, cânt eu cynnwys yn y cyfrif bob tro y byddant yn pasio heibio'r 'linell'*
- *Ni chaiff plant o dan 12 oed eu cynnwys yn y cyfrif*
- *Ni chaiff cyfrifiadau niferoedd ymwelwyr eu cynnal pan fydd yn glawio*

Yn y tabl isod ceir cyfartaledd nifer y bobl oedd yn pasio bob 10 munud rhwng 10am ac 1pm yn lleoliad prysuraf yn yr ardal, sef **Stryd Bangor / Gogledd Penrallt** ar y **Diwrnod prysur** a **Stryd y Llyn (Mynediad o'r Maes)** ar y **Diwrnod Tawel**.

	Trefi Bychain Cenedlaet hol	Trefi Mawrion Cenedlaet hol	Caern. 2019	Caern. 2016	Caern. 2015	Caern. 2012
Diwrnod prysur	93	310	219	166	n/a	n/a
Diwrnod Tawel	83	241	118	139	152	104

Ar y Diwrnod Prysur, roedd y niferoedd ymwelwyr i Gaernarfon yn 219 person bob deng munud; a dyma'r ffigur uchaf ers cychwyn Meincnodi yn y dref. Mae'r ffigur rhwng y cyfartaledd Trefi Mawr Cenedlaethol (310) a'r cyfartaledd Trefi Bychain Cenedlaethol (93). Mae'r ffigur Diwrnod Tawel (118) 51% yn is na'r cyfartaledd Trefi



Mawrion Cenedlaethol ac yn ostyngiad ar Werthusiadau Meincnodi 2016 (139) a 2015 (152); sydd o bosib yn adlewyrchiad mwy triw o weithrediadau Canol y Dref.





Mae'r tablau a ganlyn yn darparu manylion pob cyfrif nifer ymwelwyr yn llawn.

Diwrnod prysur	Stryd y Llyn (Mynediad o'r Maes)	Penllyn (y tu allan i Peacocks)	Stryd Bangor / Gogledd Penrallt	Ffordd Santes Helen
10.00-10.10	61	65	92	8
11.00-11.10	71	89	260	5
12.00-12.10	72	84	306	8
Cyfanswm	204	238	658	21
Cyfartaledd	68	79	219	7

Diwrnod Tawel	Stryd y Llyn (Mynediad o'r Maes)	Penllyn (y tu allan i Peacocks)	Stryd Bangor / Gogledd Penrallt	Ffordd Santes Helen
10.00-10.10	103	86	71	32
11.00-11.10	90	110	81	18
12.00-12.10	162	114	119	22
Cyfanswm	355	310	271	72
Cyfartaledd	118	103	90	24



DPA: PARCIO I GEIR

Mae cyfran uchel o gwsmeriaid sy'n gwario mewn canol tref yn teithio yno mewn ceir. Mewn ardaloedd gwledig, mae defnyddio car bron yn hanfodol, ac yn cael ei ddefnyddio gan bobl sy'n teithio i wario ac i weithio. Mae darparu cyfleusterau parcio digonol a chyfleus felly yn ffactor allweddol o fywiogrwydd canol tref. Yn ddelfrydol dylid cael nifer dderbyniol o fannau parcio arhosiad byr gyda throsiant cyflym ar gyfer siopwyr, a llefydd llai cyfleus am arhosiad hwy i berchnogion / gweithwyr lleol; a dylid ystyried ymwelwyr hefyd.

Yn y dref, nodwyd bod parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd o fewn yr ardal fasnachol greiddiol yn rhan annatod o'r astudiaeth. Mae'r tablau ar y dudalen nesaf yn rhoi crynodeb o'r ddarpariaeth Parcio, wedi ei rannu fel a ganlyn:

- Canran nifer y llefydd mewn meysydd parcio dynodedig.
- Canran nifer y llefydd arhosiad byr, arhosiad hir, ac anabl mewn meysydd parcio dynodedig
- Canran y llefydd gwag mewn meysydd parcio dynodedig ar Ddiwrnod Pysur ac ar Ddiwrnod Tawel
- Canran nifer y llefydd parcio ar y stryd
- Canran nifer y llefydd parcio arhosiad byr, arhosiad hir, ac anabl ar y stryd
- Canran y llefydd gwag ar y stryd ar ddiwrnod Pysur ac ar Ddiwrnod Tawel
- Canran cyffredinol y manau parcio arhosiad byr, arhosiad hir, ac anabl ar y stryd
- Canran y llefydd gwag ar y stryd ar ddiwrnod Pysur ac ar Ddiwrnod Tawel



	Trefi Bychain Cenedlaethol %	Trefi Mawrion Cenedlaethol %	Caern. 2019 %	Caern. 2016 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Maes Parcio:						
Cyfanswm y Mannau Parcio:	84	93	91	91	93	93
Mannau Arhosiad Byr: (hyd at 4 awr)	34	40	41	41	41	41
Mannau Arhosiad Hir: (dros 4 awr)	59	49	54	55	55	55
Mannau Parcio Anabl:	7	4	5	4	4	4
Mannau sydd heb eu cofrestru	0	7	0	0	0	0
Mannau Gwag ar Ddiwrnod Prysur:	34	34	30	36	n/a	n/a
Mannau Gwag ar Ddiwrnod Tawel:	40	38	33	38	45	45
Ar y Stryd:						
Cyfanswm y Mannau Parcio:	16	7	9	9	7	7
Mannau Arhosiad Byr: (hyd at 4 awr)	81	85	74	77	72	72
Mannau Arhosiad Hir: (dros 4 awr)	13	4	17	17	21	21
Mannau Parcio Anabl:	5	11	9	6	6	6
Mannau sydd heb eu cofrestru	1	0	0	0	0	0
Mannau Gwag ar Ddiwrnod Prysur:	15	12	14	17	n/a	n/a
Mannau Gwag ar Ddiwrnod Tawel:	18	17	18	20	19	19

Mae 94% o'r holl fannau parcio yng nghanol y dref ar gael mewn meysydd parcio oddi ar y stryd.





Cyffredinol	Trefi Bychain Cenedlaethol %	Trefi Mawrion Cenedlaethol %	Caern. 2019 %	Caern. 2016 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Cyfanswm y Mannau Parcio:	<i>n/a</i>	<i>n/a</i>	<i>n/a</i>	<i>n/a</i>	<i>n/a</i>	<i>n/a</i>
Mannau Arhosiad Byr: (hyd at 4 awr)	41	43	45	44	43	43
Mannau Arhosiad Hir: (dros 4 awr)	52	46	50	51	52	52
Mannau Parcio Anabl:	7	4	5	4	5	5
Mannau sydd heb eu cofrestru	3	7	0	0	0	0
Mannau Gwag ar Ddiwrnod Pysur:	31	32	28	34	<i>n/a</i>	<i>n/a</i>
Mannau Gwag ar Ddiwrnod Tawel:	37	37	32	36	43	43

Mae 91% o'r manau parcio yng Nghaernarfon oddi ar y ffordd. Yn gyffredinol, ar Ddiwrnod Pysur yng Nghaernarfon, roedd 28% o'r holl ddarpariaeth o fannau parcio yn wag, sydd yn is na'r ffigyrau ar gyfer Trefi Bychain (31%) a Threfi Mawrion (32%) Cenedlaethol ac yn ostyngiad ar ffigwr 2018 (34%). Mae'r ffigwr o 32% ar gyfer manau gwag ar Ddiwrnod Tawel 5% yn is na'r ffigyrau ar gyfer Trefi Bychain a Mawrion Cenedlaethol fel ei gilydd, a dyma'r ffigwr isaf ar gofnod yng Nghaernarfon.





DPA: AROLWG HYDER BUSNESAU

Drwy edrych ar amodau masnachu busnesau canol y dref, a'r 'hyder busnes' cysylltiedig, gall budd-ddeiliaid ganolbwyntio ar adfywio mewn modd sy'n adeiladu ar gryfderau presennol a mynd i'r afael ag unrhyw faterion penodol. Mae'r canrannau isod yn seiliedig ar y **28** Arolwg Hyder Busnes a ddychwelwyd.

Noder na chynhaliwyd yr Arolwg Hyder Busnes yn 2016.

	Trefi Bychain Cenedlaet hol %	Trefi Mawrion Cenedlaet hol %	Caern. 2019 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Natur y busnes					
Manwerthu	58	54	67	50	63
Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol	14	17	0	23	13
Sector cyhoeddus	2	1	0	3	2
Bwyd a Diod	13	14	24	10	15
Llety	2	0	0	3	-
Arall	11	13	10	10	7
Math o fusnes					
Masnachwr lluosog	9	9	19	25	31
Rhanbarthol	7	10	19	6	4
Annibynnol	84	81	62	69	65
Ers pryd y bu eich busnes yn y dref?					
Llai na blwyddyn	7	6	0	6	0
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	21	24	24	9	20
Rhwng chwe blynedd a deng mlynedd	14	10	10	9	17
Mwy na deng mlynedd	58	59	67	75	63

Mae 62% o'r busnesau a ymatebodd i'r arolwg yn rai Annibynnol, ac mae 67% ohonynt wedi bod yng Nghaernarfon ers mwy na deng mlynedd.





O gymharu gyda'r llynedd, a yw eich trosiant wedi	Trefi Bychain Cenedlaethol %	Trefi Mawrion Cenedlaethol %	Caern. 2019 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Cynyddu?	38	41	19	30	15
Aros yr un fath?	30	32	67	47	15
Lleihau?	32	27	14	23	70
O gymharu gyda'r llynedd, a yw eich proffidioldeb wedi					
Cynyddu?	32	34	15	24	16
Aros yr un fath?	35	33	55	45	10
Lleihau?	33	33	30	31	74
Yn ystod y 12 mis nesaf a ydych chi'n credu y bydd eich trosiant yn					
Cynyddu?	44	43	35	41	28
Aros yr un fath?	38	38	35	28	31
Lleihau?	18	20	30	31	41

Nododd 67% o'r ymatebwyr Busnes bod eu trosiant wedi aros yr un fath dros y 12 mis diwethaf, sydd 37% yn uwch na chyfartaledd Trefi Bychain Cenedlaethol, a 35% yn uwch na ffigur Trefi Mawrion Cenedlaethol. Gan ddilyn yr un thema, nododd 55% o Fusnesau bod eu proffidioldeb wedi aros yr un fath o gymharu â'r llynedd.

Yn nhermau Hyder Busnes, roedd 35% o Fusnesau yn disgwyl y byddai eu Trosiant yn Cynyddu dros y 12 mis nesaf, ac roedd yr un nifer yn disgwyl i'w Trosiant aros yr un fath.





Beth yw agweddau cadarnhaol Canol y Dref?	Trefi Bychain Cenedlaet hol %	Trefi Mawrion Cenedlaet hol %	Caern. 2019 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Ymddangosiad ffisegol	48	55	48	41	n/a
Ffyniant y dref	39	44	14	25	11
Cyflenwad llafur	10	11	5	13	20
Lleoliad daearyddol	44	50	48	56	20
Y Gymysgedd Fanwerthu sydd ar gael	28	39	29	25	30
Ymwelwyr fel cwsmeriaid posib	39	37	81	59	59
Cwsmeriaid lleol posib	75	77	67	81	91
Tai Fforddiadwy	13	12	5	9	7
Cysylltiadau Trafnidiaeth	33	40	19	19	33
Niferoedd Ymwelwyr	20	27	24	n/a	n/a
Parcio i Geir	32	25	14	16	28
Gwerthoedd Rhent / Costau Eiddo	15	8	5	13	0
Marchnad(oedd)	12	21	0	9	n/a
Digwyddiadau / Gweithgareddau	22	26	24	19	n/a
Marchnata / Hyrwyddo	9	15	0	9	n/a
Partneriaethau / Sefydliadau lleol	17	26	9	9	n/a
† Arall	4	7	5	6	2

Adroddwyd gan 81% o Fusnesau bod Ymwelwyr fel Cwsmeriaid Posib yn agwedd gadarnhaol o fasnachu yng Nghaernarfon. Mae hyn yn fwy na dwbl y cyfartaleddau ar gyfer Trefi Mawrion a Threfi Bychain Cenedlaethol. Nodwyd bod Cwsmeriaid Lleol Posib (67%), Ymddangosiad Ffisegol (48%) a Lleoliad Daearyddol (48%) hefyd yn agweddau cadarnhaol yng Nghaernarfon.





Beth yw agweddau negyddol Canol y Dref?	Trefi Bychain Cenedlaet hol %	Trefi Mawrion Cenedlaet hol %	Caern. 2019 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Ymddangosiad Ffisegol	19	22	28	29	n/a
Ffyniant y dref	27	20	33	29	41
Cyflenwad llafur	14	17	19	16	7
Lleoliad daearyddol	8	4	10	13	16
Y Gymysgedd Fanwerthu sydd ar gael	21	20	19	19	27
Nifer yr Unedau Gwag	43	61	67	n/a	n/a
Ymwelwyr fel cwsmeriaid posib	9	10	0	10	5
Cwsmeriaid lleol posib	4	4	0	3	0
Tai Fforddiadwy	12	16	5	13	7
Cysylltiadau Trafnidiaeth	17	14	29	26	30
Niferoedd Ymwelwyr	16	20	14	n/a	n/a
Parcio i Geir	51	53	76	74	61
Gwerthoedd Rhent / Costau Eiddo	28	30	24	26	48
Marchnadoedd	10	10	14	13	n/a
Cystadleuaeth gan fusnesau yn lleol	16	19	14	16	23
Cystadleuaeth o ardaloedd eraill	24	26	5	20	21
Cystadleuaeth gan siopau y tu allan i'r dref	37	38	5	20	n/a
Cystadleuaeth gan siopa ar-lein	38	48	19	36	16
Digwyddiadau / Gweithgareddau	7	9	0	13	n/a
Marchnata / Hyrwyddo	6	5	14	19	n/a
Partneriaethau / Sefydliadau lleol	3	3	5	6	n/a
† Arall	7	15	5	3	3

Fe wnaeth tri chwarter (76%) y Busnesau nodi fod Parcio Ceir yn agwedd negyddol yng Nghaernarfon. Mae hyn dros 20% yn uwch na'r cyfartaleddau Trefi Mawrion a Threfi Bychain Cenedlaethol, ac yn cyd-fynd â chyfartaleddau 2015 (74%) a 2012 (61%). Fe





wnaeth 67% o Fusnesau nodi bod nifer yr unedau gwag yn agwedd negyddol ar Ganol y Dref.





A yw eich busnes wedi dioddef unrhyw droseddu dros y 12 mis diwethaf?	Trefi Bychain Cenedlae thol %	Trefi Mawrion Cenedlae thol %	Caern. 2019 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Ydy	25	38	29	41	35
Nac ydy	75	62	71	59	65
Math o drosedd					
Dwyn	74	61	83	69	75
Difrod troseddol	28	48	17	15	6
Camdriniaeth	13	25	50	54	31
† Arall	6	13	17	15	0

Fe wnaeth 71% o Fusnesau nodi bod nhw ddim wedi dioddef yn sgil Trosedd Busnes.

Cwestiynau Ychwanegol

Pa fis yw'r prysuraf o ran masnachu i'ch busnes chi?

Fe wnaeth dros hanner y busnesau nodi mai Awst oedd eu mis prysuraf yn nhermau masnachu.

Pa fis yw'r tawelaf o ran masnachu i'ch busnes chi?

Fe wnaeth dros hanner y busnesau nodi mai Ionawr oedd eu mis tawelaf yn nhermau masnachu.





Pa awgrymiadau fyddech chi'n eu gwneud er mwyn gwella perfformiad economaidd canol y dref?

'[Parcio i Geir](#)', ac yn benodol, cyflwyno parcio am ddim neu ratach oedd y thema allweddol a amlygwyd yn sylwadau Perchnogion Busnesau.

- *Mwy o ddigwyddiadau ar benwythnosau.*
- *Mwy yn digwydd ar Stryd y Llyn*
- *Angen glanhau rhannau o'r dref. Llauer o ysbwriel a lloriau budr yn cyflwyno delwedd annymunol.*
- *WiFi Tref i bobl sy'n ymweld, er mwyn hyrwyddo'r siopau sydd yma a'r hyn sy'n digwydd ar y diwrnod penodol hwnnw.*
- *Pamffled am y dref gydag adran ar y siopau a chaffis annibynnol, h.y. enw'r siop a disgrifiad byr o'r hyn y mae'n ei gynnig.*
- *Dim ond ychydig o amser sydd gan ymwelwyr, ac felly gellid cael pamffled i amlygu'r ffordd orau iddynt ei dreulio.*
- *[Parcio am ddim am yr hanner awr cyntaf yn y meysydd parcio, a 50c am awr, er mwyn annog pobl leol i ddechrau defnyddio canol y dref eto.](#)*
- *Glanhau'r strydoedd.*
- *[Lleihau pris tocynnau parcio ceir.](#)*
- *Talu llai o Dreth Gyngor*
- *[Parcio gwell i geir](#)*
- *[Parcio rhad neu am ddim](#)*
- *Mwy o siopau.*
- *Lleihau cyfraddau busnes er mwyn rhoi cyfle i berchnogion busnesau lleol.*
- *Cymhelliant i sefydlu busnesau newydd.*
- *Cynnydd yn nifer y siopau o ansawdd.*
- *[Parcio rhatach neu am ddim i geir.](#)*
- *[Parcio am ddim i geir.](#)*
- *Lleihau cyfraddau er mwyn llenwi unedau gwag.*
- *Trefn y ffyrdd ar y Maes.*
- *[Gwell darpariaeth parcio.](#)*
- *Gwasanaethau bws gwell*
- *[Parcio i Geir.](#)*
- *Ardaloedd i gerddwyr.*
- *Lleihau cyfraddau er mwyn llenwi mwy o unedau.*
- *[Dyddiau lle mae parcio i geir yn rhatach neu am ddim.](#)*
- *Mae'r dref angen ei glanhau'n drylwyr.*
- *Angen i flaen siopau fod yn fwy deniadol.*
- *[Trafferthion parcio.](#)*
- *Llai o fiwrocratiaeth gan y Cyngor*
- *Cyfyngu ar y nifer o fusnesau tebyg a ganiateir, h.y. dim mwy o gaffis a siopau elusen*





- *Mwy o fannau parcio i geir.*
- *Codi sbwriel*
- *Mwy o ddigwyddiadau marchnata ar gyfer y dref, gan gynnig cymhelliant i lenwi eiddo gwag.*
- *Mwy o barcio am ddim/rhad.*
- *Parcio am ddim i geir am y ddwy awr gyntaf. Mwy o hyblygrwydd gan wardeiniaid parcio, h.y. peidio gweithredu yn erbyn rhywun sydd lai na deng munud dros eu hamser*
- *Parcio am ddim ar adegau penodol.*
- *Mwy o ddigwyddiadau sy'n cynnwys Stryd y Llyn yn hytrach na chanolbwyntio ar Stryd y Plas yn unig.*
- *Lleihau costau parcio [pobl sy'n parcio am awr] yn gorfod dychwelyd, ac heb amser i bori trwy'r siopau.*

Yn eich barn chi, beth yw Pwyntiau Gwerthu Unigryw Canol Tref Caernarfon?

Ystyriai Busnesau mai 'Hanes' a 'Chastell Caernarfon' oedd Pwyntiau Gwerthu Unigryw y dref.

- *Tref hanesyddol.*
- *Unigryw.*
- *Amrywiaeth o siopau / caffis.*
- *Cymuned.*
- *Yr iaith Gymraeg i'w chlywed ar y strydoedd.*
- *Y Castell.*
- *Hanes y dref ac ymwelwyr*
- *Castell.*
- *Dociau.*
- *Hanes*
- *Bwytai*
- *Y Maes*
- *Tref hanesyddol.*
- *Tref â chymeriad.*
- *Awyrgylch gyfeillgar*
- *Y potensial i fod yn dref ffyniannus.*
- *Siopau bychain unigryw*
- *Y Castell a'r hyn sydd o'i amgylch.*
- *Unigoliaeth yr unedau a leolir o fewn waliau'r dref.*
- *Y castell a'r lleoliad i ddenu twristiaeth*
- *Castell.*
- *Hanes.*
- *Siopau bychain, unigol, arbenigol.*
- *Y Castell a'i hanes*





- *Hanes.*
- *Cymreictod*
- *Ein Castell anhygoel, a'r 'hen dref' o fewn ei waliau. Lleoliad arfordirol.*
- *Y Castell.*
- *Yr iaith a'r Castell.*
- *Strydoedd bach ac unigryw*
- *Siopau annibynnol.*
- *Y nifer o siopau annibynnol sydd â pherchnogion lleol ac sy'n cynnig ystod eang o nwyddau deniadol, i bobl leol yn bennaf, ond sydd hefyd yn apelio at ymwelwyr yn yr un modd, lle mae'r iaith yn eich hamgylchynu a'r awyrgylch yn gyfeillgar.*



DPA: AROLWG DEFNYDDWYR CANOL TREFI

Bwriad yr Arolwg Defnyddwyr Canol Trefi yw deall sut mae pobl sy'n defnyddio eich tref yn ei gweld hi. Wrth ofyn i bob math o ymwelwyr, gellir cael darlun manylach o'r sefyllfa, gan fod yr hyn sy'n bwysig i ymwelwyr rheolaidd yn gallu bod yn wahanol iawn i'r hyn sy'n bwysig i rhywun sydd heb ymweld â'r dref o'r blaen. Cwblhawyd cyfanswm o **227** Arolwg Defnyddwyr Canol Trefi. Mae'r ffigyrau canran isod yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr ymatebwyr i bob cwestiwn.

**Noder na chynhaliwyd yr Arolwg Defnyddwyr Canol Trefi yn 2016.*

	Trefi Bychain Cenedlae thol %	Trefi Mawrion Cenedlae thol %	Caern. 2019 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Rhywedd					
Gwryw	32	33	42	49	42
Benyw	67	66	55	51	58
Mae'n well gen i beidio â dweud	1	1	2	n/a	n/a
Oedran					
16-25	6	6	7	5	12
26-35	14	16	24	31	22
36-45	24	21	23	20	19
46-55	23	22	27	23	23
56-65	17	18	10	11	17
Dros 65	15	17	7	10	7
Mae'n well gen i beidio â dweud	1	1	3	n/a	n/a



Pa mor aml fyddwch chi'n ymweld â Chanol y Dref?	Trefi Bychain Cenedlaethol %	Trefi Mawrion Cenedlaethol %	Caern. 2019 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Bob dydd	21	17	35	50	37
Mwy nac unwaith yr wythnos	37	35	33	25	30
Yn wythnosol	20	22	15	10	15
Pob pythefnos	7	9	4	4	7
Mwy nac unwaith y mis	5	6	3	4	4
Unwaith y mis neu lai	10	10	9	8	8
Sut fyddwch chi'n teithio i Ganol y Dref fel arfer?					
Ar droed	38	29	26	30	22
Beic	1	2	2	2	1
Beic modur	0	0	0	0	1
Car	56	59	62	61	57
Bws	3	9	8	4	19
Trên	0	0	n/a	2	0
† Arall	2	2	2	0	0
Ar gyfartaledd, faint fyddwch chi'n ei wario ar ymweliad arferol â Chanol y Dref?					
Dim	3	2	3	4	5
£0.01-£5.00	12	9	29	40	23
£5.01-£10.00	24	20	22	29	24
£10.01-£20.00	33	30	27	16	28
£20.01-£50.00	23	30	14	10	17
Mwy na £50.00	5	10	4	1	3

Roedd 83% o Ddefnyddwyr Canol y Dref yn ymweld â'r dref o leiaf unwaith yr wythnos, a 62% ohonynt yn dod mewn car.

Mae 32% o ddefnyddwyr Canol y Dref yn gwario llai na £5.00 ar ymweliad arferol â Chaernarfon, sydd 21% yn uwch na chyfartaledd Trefi Mawrion Cenedlaethol (11%) ac 17% yn uwch na ffigur Trefi Bychain Cenedlaethol.





Beth yw agweddau cadarnhaol cyffredinol Canol y Dref?	Trefi Bychain Cenedlaethol %	Trefi Mawrion Cenedlaethol %	Caern. 2019 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Ymddangosiad Ffisegol	43	28	36	36	15
Glanweithdra	36	26	11	14	-
Y Cynnig Manwerthu	18	23	19	17	20
Gwasanaeth i Gwsmeriaid	22	18	16	17	-
Caffis / Bwytaid	39	33	64	74	31
Mynediad at Wasanaethau	56	56	59	67	64
Cyfleusterau Hamdden	14	12	9	9	10
Gweithgareddau/Digwyddiadau Diwylliannol	20	15	36	23	21
Tafarnau/Bariau/Clybiau Nos	25	13	45	43	34
Toiledau Cyhoeddus	20	51	9	n/a	n/a
Cysylltiadau Trafnidiaeth	18	19	12	14	30
Hwylusedd cerdded o amgylch canol y dref	54	58	54	57	52
Hwylustod e.e. yn agos at eich cartref	66	62	44	51	50
Diogelwch	17	13	8	6	8
Parcio i Geir	27	24	18	10	22
Marchnadoedd	29	37	9	12	n/a
† Arall	7	6	4	8	3

Adroddwyd gan 64% o ddefnyddwyr Canol y Dref fod Caffis / Bwytaid yn elfen gadarnhaol yng Nghaernarfon; bron i ddwbl y cyfartaleddau ar gyfer Trefi Bychain a Threfi Mawrion Cenedlaethol. Yn nghyswllt y cynnig bwyd a diod, fe wnaeth 45% o ddefnyddwyr Canol y Dref nodi fod Tafarnau / Bariau / Clybiau Nos yn agwedd gadarnhaol. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigyrau ar gyfer Trefi Mawrion (13%) a Threfi Bychain (25%) Cenedlaethol.





Beth yw agweddau negyddol cyffredinol Canol y Dref?	Trefi Bychain Cenedlaethol %	Trefi Mawrion Cenedlaethol %	Caern. 2019 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Ymddangosiad ffisegol	32	39	49	42	-
Glanweithdra	24	34	54	53	-
Y Cynnig Manwerthu	52	48	44	38	-
Gwasanaeth i Gwsmeriaid	8	8	12	11	-
Caffis / Bwytaid	17	10	4	3	-
Mynediad at Wasanaethau	12	6	10	5	-
Cyfleusterau Hamdden	24	14	13	19	-
Gweithgareddau/Digwyddiad au Diwylliannol	16	14	10	22	-
Tafarnau/Bariau/Clybiau Nos	28	16	4	8	-
Toiledau Cyhoeddus	25	56	28	n/a	n/a
Cysylltiadau Trafnidiaeth	14	12	18	15	-
Hwylusedd cerdded o amgylch canol y dref	9	8	9	10	-
Hwylustod e.e. yn agos at eich cartref	4	5	5	7	-
Diogelwch	13	15	23	20	-
Parcio i Geir	40	40	40	58	-
Marchnadoedd	22	18	10	17	-
† Arall	15	16	11	21	-

Fel yn 2015, fe wnaeth defnyddwyr Canol y Dref nodi bod Glanweithdra (54%), Ymddangosiad Ffisegol (49%), y Cynnig Manwerthu (44%) a Pharcio i Geir (40%) yn agweddau negyddol yng Nghaernarfon.





Am ba mor hir fyddwch chi'n aros yng Nghanol y Dref?	Trefi Bychain Cenedlaethol %	Trefi Mawrion Cenedlaethol %	Caern. 2019 %	Caern. 2015 %	Caern. 2012 %
Llai nac awr	37	20	26	35	31
1-2 awr	43	51	36	23	30
2-4 awr	12	21	11	6	17
4-6 awr	2	3	8	2	4
Drwy'r dydd	4	4	15	27	17
† Arall	2	1	4	6	1
A fydddech yn argymhell ymweliad â Chanol y Dref?					
Byddwn	64	61	78	74	n/a
Na fyddwn	36	39	22	26	n/a

Fe wnaeth 62% o ddefnyddwyr Canol y Dref aros yng Nghaernarfon am lai na dwy awr, tra bod y 15% a arhosodd drwy'r dydd yn amlgu natur dwristaidd y dref.

Nododd 78% o ymatebwyr y byddent yn argymhell ymweliad â Chanol y Dref, sydd 4% yn uwch na 2015, 17% yn uwch na'r cyfartaledd Trefi Mawrion Cenedlaethol, ac yn gynydd o 14% ar y ffigwr Trefi Bychain Cenedlaethol.





Pa ddau awgrym fydddech chi'n eu cynnig i wella canol y dref?

'Newid llif y traffig ar y Maes' oedd un o'r prif themâu yn codi o argymhellion defnyddwyr Canol y Dref, gyda sylwadau yn cynnwys:

- *Mae angen ailfeddwl am gynllun y Maes - nid yw cymysgu ceir a cherddwyr yn gweithio nac yn creu amgylchfyd dymunol.*
- *Mae'r Maes yn anhrefnus ac yn hynod beryglus. Nid yw gyrwyr a cherddwyr yn gwybod pwy sydd â hawl tramwy.*
- *Egluro (neu atal) llif traffig a pharcio ar y Maes; mae'n peri dryswch a gall fod yn beryglus.*
- *Gwneud y Maes yn fwy diogel i gerddwyr.*
- *Gwneud y Maes yn fwy diogel i gerddwyr. Mae gyrwyr ceir yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r ffordd gywir, yn enwedig os ydynt yn ymwelwyr â'r dref*
- *Gosod cylchfan ar y Maes. Cael gwared ar y tacsis*
- *Newid y cynllun yn llwyr, a gwrando ar bobl leol am unwaith. Mae gwir angen manau cysgodol i bobl eistedd ar y Maes - dewch â'r coed yn eu holau a diswyddwch y bobl sy'n gyfrifol am newid canol y dref yn un gwastraff lle enfawr, gyda dim byd i'w gynnig i ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd. Nodi trefn y ffyrdd ar y Maes yn glir. Nid oes ffordd ddynodedig drwy'r Maes, er bod caniatâd i gerbydau yrru drwodd. Pwy fyddai'n gyfrifol pe bai rhywun yn cael ei anafu neu ei ladd gan gerbyd wrth deithio trwy'r Maes, pan nad oes ffordd ddynodedig? Y cynllunwyr? Y dylunydd? Cyngor Tref Caernarfon? Y gyrrwr?*
- *Gwella natur ddryslud y Maes o ran traffig/parcio ac ati*

Nodwyd 'Gwelliannau Ffisegol' i ganol tref Caernarfon hefyd:

- *Gwella "edrychiad" cyffredinol y dref. Mae angen i fusnesau a landlordiaid sicrhau bod eu heiddo yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn edrych yn ddeniadol.*
- *Gwella delwedd Stryd y Llyn*
- *Gwell cynnal a chadw ar y strydoedd, ac atgyweirio'r palmentydd sydd yn rhydd ac wedi eu difrodi o amgylch y dref.*
- *Twtio edrychiad wynebau adeiladau.*
